Cyngor sir ddinbych denbighshire County Council

At: Aelodau'r Cabinet

Dyddiad: 20 Mehefin 2018

Rhif Union: 01824712568

ebost: democrataidd@sirddinbych.gov.uk

Annwyl Gynghorydd

Fe'ch gwahoddir i fynychu cyfarfod y **CABINET, DYDD MAWRTH, 26 MEHEFIN 2018** am **10.00 am** yn **SIAMBR Y CYNGOR, NEUADD Y SIR, RHUTHUN**.

Yn gywir iawn

G Williams
Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democrataidd

**AGENDA**

**RHAN 1 – GWAHODDIR Y WASG A'R CYHOEDD I FOD YN BRESENNOL AR GYFER Y RHAN HON O'R CYFARFOD**

**1 YMDDIHEURIADAU**

**2 DATGAN CYSYLLTIADAU** (Tudalennau 5 - 6)

Dylai'r Aelodau ddatgan unrhyw gysylltiad personol neu gysylltiad sy'n rhagfarnu mewn unrhyw fater a nodwyd i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.

**3 MATERION BRYS**

Rhybudd o eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel materion brys yn unol ag Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972.

**4 COFNODION** (Tudalennau 7 - 14)

Derbyn cofnodion cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 22 Mai 2018 (copi wedi'i amgáu).

5 **GWELEDIGAETH A STRATEGAETH DWF AR GYFER ECONOMI GOGLEDD CYMRU: TREFNIADAU LLYWODRAETHU** (Tudalennau 15 - 76)

Ystyried adroddiad gan y Cynghorydd Hugh Evans, yr Arweinydd ac Aelod Arweiniol yr Economi a Llywodraethu Corfforaethol, (copi wedi'i amgáu) ynglŷn â'r Cytundeb Llywodraethu sydd ei angen i ffurfioli trefniadau cyfansoddiadol Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru a rhoi pwerau penderfynu i'r Bwrdd o fewn terfynau penodol.

6 **ADRODDIAD PERFFORMIAD Y CYNLLUN CORFFORAETHOL – CHWARTER 4 – 2017-18** (Tudalennau 77 - 130)

Ystyried adroddiad gan y Cynghorydd Julian Thompson-Hill, Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol (copi wedi'i amgáu) yn rhoi diweddariad ar gyflawni Cynllun Corfforaethol 2017-2022 ar ddiwedd chwarter 4 2017-18.

7 **SEFYDLU SYSTEM BRYNU DDEINAMIG AR GYFER GWASANAETHAU CLUDO TEITHWYR** (Tudalennau 131 - 140)

Ystyried adroddiad gan y Cynghorydd Brian Jones, Aelod Arweiniol Priffyrdd, Cynllunio a Theithio Cynaliadwy (copi wedi'i amgáu) yn ceisio cymeradwyaeth y Cabinet i ddechrau proses gaffael i sefydlu system brynu ddeinamig ar gyfer cludiant i ddysgwyr a gwasanaethau bysiau lleol ar draws Sir Ddinbych.

8 **SEFYDLU FFRAMWAITH CYNNAL A CHADW TAI GWAG** (Tudalennau 141 - 162)

Ystyried adroddiad ar y cyd gan y Cynghorwyr Tony Thomas, Aelod Arweiniol Tai, Rheoleiddio a'r Amgylchedd a Julian Thompson-Hill, Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol (copi wedi'i amgáu) yn ceisio cymeradwyaeth y Cabinet i ddechrau proses gaffael a ffurfio cytundeb i benodi nifer o gontractwyr ar gyfer fframwaith i gwblhau gwaith adnewyddu ar adeiladau domestig gwag sy'n eiddo i'r Cyngor.

9 **ADRODDIAD ARIANNOL (SEFYLLFA ARIANNOL DERFYNOL 2017/18)** (Tudalennau 163 - 176)

Ystyried adroddiad gan y Cynghorydd Julian Thompson-Hill, Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol (copi wedi'i amgáu), yn manylu ar sefyllfa refeniw derfynol y Cyngor ar gyfer 2017/18 a'r argymhellion arfaethedig i ymdrin â chronfeydd wrth gefn a balansau.

**10 ADRODDIAD CYLLID** (Tudalennau 177 - 192)

Ystyried adroddiad gan y Cynghorydd Julian Thompson-Hill, Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol (copi wedi'i amgáu) ar y sefyllfa ariannol ddiweddaraf a'r cynnydd a wnaed o ran y strategaeth y cytunwyd arni ar gyfer y gyllideb.

**11 RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL Y CABINET** (Tudalennau 193 - 196)

Derbyn Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Cabinet sydd wedi'i hamgáu, a nodi'r cynnwys.

**RHAN 2 – EITEMAU CYFRINACHOL**

GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD

Argymhellir, yn unol ag Adran 100A (4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, bod y Wasg a'r Cyhoedd yn cael eu gwahardd o'r cyfarfod tra bydd yr eitem fusnes ganlynol yn cael ei thrafod oherwydd ei bod yn debygol y bydd gwybodaeth eithriedig yn cael ei datgelu fel y'i diffinnir ym mharagraff 14, Rhan 4, Atodlen 12A y Ddeddf.

**12 DYRANNU CONTRACT GWASANAETHAU YSWIRIANT** (Tudalennau 197 - 218)

Ystyried adroddiad cyfrinachol gan y Cynghorydd Julian Thompson-Hill, Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol (copi wedi'i amgáu) yn ceisio cymeradwyaeth y Cabinet i ddyrannu Contract Yswiriant y Cyngor i'r darparwyr sydd wedi'u henwi yn yr adroddiad.

**AELODAETH**

**Y Cynghorwyr**

Hugh Evans
Bobby Feeley
Huw Hilditch-Roberts
Richard Mainon
Tony Thomas
Julian Thompson-Hill
Brian Jones
Mark Young

**COPIAU I'R:**

Holl Gynghorwyr er gwybodaeth
Y Wasg a'r Llyfrgelloedd
Cynghorau Tref a Chymuned